# Newid Canllawiau Arwyddeg i'r Gronfa Adfer Ddiwylliannol 3

Mae ychydig o newidiadau. Mae gweddill y canllawiau gwreiddiol yn aros yn wir.

## Pam gwneud newidiadau'n hwyr?

Mae sefyllfa'r pandemig yn newid o hyd. Ers i ni lunio'r datganiad i'r wasg, mae cyfyngiadau newydd wedi dod i rym.

Bydd y cyfyngiadau newydd yn effeithio ar lawer rhagor o sefydliadau celfyddydol a hynny'n fwy difrifol.

Os hoffech trafod y newidiadau, e-bostiwch: grantiau@celf.cymru

## Beth sydd wedi newid?

**Ceisiadau gan lyfrgelloedd, sinemâu ac amgueddfeydd** – ni dderbyniwn geisiadau gan y rheini nawr. Os ydych yn llyfrgell, sinema neu'n amgueddfa, edrychwch ar y canllawiau ar wahân gan Lywodraeth Cymru i weld sut mae ymgeisio am arian. Peidiwch ag ymgeisio i ni os nad ydych yn sefydliad celfyddydol

**Bod yn gymwys** – bydd unrhyw sefydliad a gafodd arian gan Gronfa Adfer Ddiwylliannol (2) ym Mai 2021 nawr yn gymwys i ymgeisio. Os na chawsoch arian o'r blaen ond rydych chi'n diwallu'r meini prawf eraill, cysylltwch â ni i gael gwybod a fyddech chi'n gymwys

Ar gyfer pa gyfnod y bydd y grant?

- ar gyfer 1 Hydref 2021-14 Chwefror 2022 gall lleoliad celfyddydol yng Nghymru neu sefydliad celfyddydol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cyhoedd am dâl (fel sefydliadau celfyddydol cymunedol) ystyried unrhyw gostau ac incwm
- dim ond ar gyfer 1 Rhagfyr 2021-14 Chwefror 2022 gall sefydliad cymwys arall ystyried unrhyw gostau ac incwm

**Pryd caf yr arian os llwyddaf?** – mae brys i gael yr arian allan. Felly talwn 45% o unrhyw gais cymwys cyn gynted ag yr ydym ni wedi gorffen y gwaith gwirio bras. Os ydym ni’n sylweddoli wedyn ar ôl darllen eich cais yn ofalus na ddylech chi wedi cael yr arian, efallai y gofynnwn am ddychwelyd rhywfaint neu'r cyfan